

Atodiad 5:

Gwastraff Safle; Cynllun Codi Tâl Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol

Cynnwys

Negeseuon allweddol.....	2
Cynigion codi tâl	3
Ildiadau.....	6
Trwyddedau a defnydd peirianwaith symudol	6
Tirlenwi a Gwastraff Mwyngloddio.....	6
Gweithgareddau gwastraff lluosog	7
Amrywiadau Gweinyddol.....	7
Cyngor cyn gwneud cais	7
Ceisiadau heb ddigon o fanylion	7
Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9	8

Negeseuon allweddol

Mae'r adran hon yn gymwys i drwyddedau a ddyroddir i weithgareddau sy'n dod o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.

Ers 2003, rydym wedi defnyddio'r Cynllun Arfarnu Gweithredwr a Risg Llygredd (OPRA) i gynhyrchu proffil risg ar gyfer pob cais pwrpasol (Haen 3). Mae ein Hadolygiad Strategol o Daliadau wedi pennu nad yw OPRA bellach yn diwallu anghenion cynllun codi tâl modern sy'n seiliedig ar adennill costau ar gyfer ceisiadau am drwyddedau.

Rydym yn cynnig cyflwyno cynllun codi tâl llai cymhleth sy'n cyfateb yn agosach i'r tâl â chost cyflawni. Mae ein cynigion yn cyflwyno ystod o daliadau sylfaenol yn dibynnu ar gymhlethdod y penderfyniad, gyda thaliadau ychwanegol ar gyfer rhai asesiadau lle bo angen. Y tâl fydd y Tâl Sylfaenol (gweler Tabl 2) ynghyd â chostau Cynlluniau ychwanegol i'w hasesu (Tabl 3). Bydd canllawiau ar gyfanswm y gost yn rhan o'r drafodaeth cyn gwneud cais.

Mae'r gwaith sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar drwydded wedi cynyddu. Mae deddfwriaeth, cyfraith achosion a chanllawiau newydd wedi cynyddu'r asesiad sydd ei angen ar gyfer agweddau fel allyriadau i ddŵr a'r effaith ar gynefinoedd.

Rydym yn cynnig cyflwyno taliadau newydd mewn rhai meysydd, ac adennill costau'r gwaith yr ydym yn ei wneud.

Bydd taliadau sefydlog yn parhau ar gyfer Trwyddedau Rheolau Safonol. Mae'r taliadau arfaethedig yn dangos cynnydd bach

Bydd Esemptiadau Gwastraff yn aros yr un fath.

Mewn achosion lle nad yw cais yn cynnwys digon o fanylion i symud ymlaen, rydym yn bwriadu dychwelyd y cais yn unol â'n canllawiau proses a chodi tâl ar yr ymgeisydd am y gwaith a wnaed hyd at y pwynt hwnnw.

Codir tâl amser a deunyddiau pan fo'r amser penderfynu yn mynd y tu hwnt i 150% o'r amser a gostiwyd yn y tâl ymgeisio.

Rydym yn bwriadu codi tâl ar sail amser a deunyddiau am asesiadau tirlenwi penodol megis asesiadau risg hydroddaearegol sy'n benodol i leoliad.

Cynigion codi tâl

Mae ein taliadau arfaethedig yn adlewyrchu'r amser y mae'n ei gymryd i bennu pob math o drwydded. Yn ogystal ag anelu at adennill costau llawn, mae ein dull arfaethedig yn fwy tryloyw a chliriach na gyda'r offeryn OPRA blaenorol.

Mae ceisiadau am drwyddedau pwrpasol (newydd, amrywiad, trosglwyddiadau ac ildiadau) yn destun yr un prosesau sylfaenol, er enghraifft nodi, sgrinio cyflawnrwydd, ymgynghori mewnol, a phenderfynu. Rydym wedi seilio ein taliadau arfaethedig ar faint o amser, ar gyfartaledd, y mae'n ei gymryd i ni wneud a phenderfynu ar geisiadau am Drwydded.

Yn dibynnu ar y gweithgaredd arfaethedig a lleoliad y cais, bydd angen rhagor o wybodaeth arnom i ni benderfynu ar rai trwyddedau. Rydym wedi datblygu rhestr o daliadau yn seiliedig ar yr amser cyfartalog a gymerwyd i asesu pob un o'r cynlluniau ychwanegol hyn, er enghraifft cynllun atal a lliniaru tân.

Credwn fod adeiladu ein tâl o dâl sylfaenol ac ychwanegu'r gost o asesu'r cynlluniau ychwanegol penodol sydd eu hangen ar gyfer pob cais yn gymesur, yn deg ac yn dryloyw.

Er y bydd rhai taliadau'n codi'n sylweddol, nid yw ein taliadau wedi newid yn sylfaenol ers cyn 2013. Mae yna hefyd rai meysydd o ostyngiad mewn costau.

Mae Tablau 1 i 5 yn crynhoi ein taliadau trwydded newydd ac yn eu cyferbynnu yn erbyn cynllun codi tâl presennol CNC.

Trwyddedau Rheolau Safonol	Tâl arfaethedig 2023/24	Tâl cyfredol 2022/23
Cais Newydd	£1,837	£1,669
Cais Newydd – Peirianwaith Symudol	£1,284	£735
Mân Amrywiad Technegol	£2,803	£1,311
Amrywiad Gweinyddol	£696	Dim tâl
Trosglwyddo	£1,803	£997
Cais Newydd – gydag Aseiad Lleoliad*	£4,633	£2,697
Cais Newydd – Cyfleuster Nwy Tirlenwi	£4,633	£2,697
Cais Newydd – Gwastraff Mwyngloddio	£997	£997

Tabl 1 – Cymhariaeth o daliadau cyfredol ac arfaethedig ar gyfer Trwyddedau Rheolau Safonol

*Mae hyn yn berthnasol i SR2010 Rhif 12 ac SR2010 Rhif 13 yn unig.

Trwyddedau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Gwastraff Pwrpasol	Tâl arfaethedig 2023/24	Tâl cyfredol 2022/23
Cais Newydd*	£9,719	£2,800 – £22,050
Cais Newydd – Gwaith Symudol*	£9,719	£2,800 – £22,050

Cais Newydd – Gwastraff Tirlenwi Anadweithiol*	£9,719	£2,800 – £22,051
Cais Newydd – Gwastraff Mwyngloddio*	£9,719	£2,800 – £22,051
Amrywiad Gweinyddol	£696	Dim tâl
Amrywiad Arferol*	£8,066	£2,272 – £17,892
Mân Amrywiad Technegol	£2,803	£1,311
Trosglwyddiad Rhannol	£4,793	£3,065
Trosglwyddiad Llawn	£3,117	£2,047

Tabl 2 – Cymhariaeth o daliadau cyfredol ac arfaethedig ar gyfer trwyddedau pwrpasol

*Costau sylfaenol

Cynlluniau ychwanegol i'w hasesu	Tâl arfaethedig 2023/24	Tâl cyfredol 2022/23
Asesiad cyfrinachedd masnachol	£696	Dim tâl – dull newydd
Asesiad / dogfennu safleoedd gwarchoddedig eraill	£195	Dim tâl – dull newydd
Asesiad Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	£297	Dim tâl – dull newydd
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	£2,446	Dim tâl – dull newydd
Asesiad effaith sŵn a chynllun rheoli sŵn	£2,354	Dim tâl – dull newydd
Cynllun adfer gwastraff	£1,683	Dim tâl – dull newydd
Cynllun rheoli llwch ac allyriadau	£835	Dim tâl – dull newydd
Cynllun rheoli aroglau	£1,571	Dim tâl – dull newydd
Cynllun atal a lliniaru tân	£2,274	Dim tâl – dull newydd
Cynllun rheoli plâu	£446	Dim tâl – dull newydd
Asesiad y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr o elifiant prosesau	£3,128	Dim tâl – dull newydd
Caniatâd gollwng dŵr	£378	Dim tâl – dull newydd
Asesiad risg bioaerosolau	£3,606	Dim tâl – dull newydd

Asesiadau tirlenwi eraill (e.e. Hydroddaearegol, rheoli nwy tirlenwi, darpariaeth ariannol ac ati)	Cyfradd Amser a Deunyddiau yn ôl yr awr	Dim tâl – dull newydd
Tâl Amser a Deunyddiau	£125 yr awr.	Dim tâl – dull newydd
Gweithgareddau Gwastraff Lluosog y gwneir cais amdanynt ar yr un cais: 100% o dâl y cais mwyaf cymhleth ac 20% yn ychwanegol o dâl pob gweithgaredd gwastraff ychwanegol	100% Cais cychwynnol. 20% o bob gweithgaredd gwastraff ychwanegol	Dim tâl – dull newydd

Tabl 3 – Cymhariaeth o daliadau cyfredol ac arfaethedig ar gyfer cynlluniau ychwanegol

Defnydd Peirianwaith Symudol	Math o ddefnydd	Tâl arfaethedig 2023/24	Tâl cyfredol 2022/23
Unrhyw wastraff a ledaenir i'r tir i'w adennill	Fesul defnydd risg is	£1,422	£420
	Fesul defnydd risg canolig	£1,561	£798
	Fesul defnydd risg uwch	£1,837	£1,018
Adfer tir	Fesul defnydd	£1,975	£2,541
Trin gwastraff	Fesul defnydd	£1,284	£2,541

Tabl 4 – Cymhariaeth o daliadau cyfredol ac arfaethedig ar gyfer defnydd o Beirianwaith Symudol

Ildiadau Trwyddedau	Tâl arfaethedig 2023/24	Tâl cyfredol 2022/23
Ildiad Sylfaenol Rhannol	£2,497	£566
Ildiad Sylfaenol Llawn	£1,569	£566
Ildiad Risg Isel Rhannol	£5,442	£2,593
Ildiad Risg Isel Llawn	£4,452	£2,593
Ildiad Arferol Rhannol	£6,321	£2,048 – £16,129
Ildiad Arferol Llawn	£5,331	£2,048 – £16,129
Ildiad Anweithredol Rhannol	£2,251	Hyd at £788
Ildiad Anweithredol Llawn	£1,153	Hyd at £788

Tabl 5 – Cymhariaeth o daliadau cyfredol ac arfaethedig ar gyfer ildio trwydded

Ildiadau

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng ildio Trwydded Rheolau Safonol neu Drwydded Bwrpasol. Maent yn cymryd yr un faint o waith ac felly codir yr un tâl.

Mae ildiadau sylfaenol ar gyfer gweithgareddau sydd o risg isel, er enghraifft lle na ddylai tir a dŵr daear fod mewn perygl. Nid oes angen adroddiad ar adeg yr ildiad. Efallai y bydd rhai cyfleusterau gwastraff mwyngloddio a gwastraff sy'n cael ei ddyddodi i'w hadennill yn gymwys ar gyfer y llwybr hwn.

Mae ildiad risg isel ar gyfer sefyllfaoedd lle gallai gweithgareddau mewn egwyddor lygru tir neu ddŵr daear, ond gall y gweithredwr ddangos trwy gofnodion derbyn gwastraff (lle bo'n berthnasol), a mesurau rheoli llygredd bod y mesurau cyfreithiol ar gyfer ildio wedi'u bodloni. Mae angen adroddiad ond nid un sy'n cynnwys data monitro ymwithiol.

Mae ildiad arferol yn gofyn am adroddiad manwl, gan ddefnyddio data monitro:

- rhaid i adroddiad cyflwr safle ildio ar gyfer cyfleusterau gwastraff ddangos bod y safle mewn cyflwr boddhaol
- rhaid i adroddiad cwblhau ar gyfer cyfleusterau gwastraff mwyngloddio a safleoedd tirlenwi ddangos na fydd y gwastraff a adawyd yn achosi risg annerbyniol o lygredd neu niwed i iechyd dynol neu'r amgylchedd.

Mae ildiad rhannol yn golygu ildio rhan o'r drwydded, yn amodol ar yr un meini prawf ag ildiad llawn ar gyfer y rhan o'r safle y mae'r ymgeisydd yn ceisio ei hildio. Mae hon yn broses fwy cymhleth, ac adlewyrchir hyn yn y costau uwch.

Mae ildiadau anweithredol yn ildiadau ar gyfer safleoedd sydd wedi derbyn trwydded ond nad ydynt erioed wedi dechrau gweithredu am ba reswm bynnag.

Trwyddedau a defnydd peirianwaith symudol

Gall trwyddedau peiriannau symudol a roddir naill ai yng Nghymru neu Loegr gael eu defnyddio'n gyfreithiol y naill ochr i'r ffin neu'r llall. Yng Nghymru, byddwn bellach yn codi £9,719 am gymhwysiad Peirianwaith Symudol pwrpasol. Nid yw CNC yn codi tâl cynhaliaeth blyneddol.

Bydd y taliadau ar gyfer Defnyddiau yn seiliedig ar risg rhwng £1,422 a £1,837 fel yn Nhabl 4.

Tirlenwi a gwastraff Mwyngloddio

Bydd taliadau am safleoedd tirlenwi a gwastraff mwyngloddio yn seiliedig ar y rheini ar gyfer ceisiadau am drwyddedau pwrpasol (Haen 3) (tâl sylfaenol ynghyd â chynlluniau ychwanegol). Bydd taliadau penodol ychwanegol am dirlenwi sy'n adlewyrchu natur unigryw a daearegol safleoedd tirlenwi. Bydd y dull hwn yn gyson drwy osodiadau gwastraff a gwastraff ar y safle.

Bydd taliadau'n amrywio rhwng ceisiadau gan eu bod yn dibynnu ar sefyllfa unigryw pob safle. Bydd y rhain ar gyfer asesiadau fel asesiadau risg a modelu hydrodaearegol,

allyriadau a modelau nwyon tirlenwi, sefydlogrwydd llethrau, a pheirianneg tirlenwi. Nid yw'n bosibl cynhyrchu tâl sefydlog am yr asesiadau hyn. Codir tâl am y rhain ar sail amser a deunyddiau a chânt eu hanfonebu fel ôl-daliadau.

Gweithgareddau gwastraff lluosog

Lle mae gennym weithgareddau gwastraff lluosog ar yr un cais, byddwn yn codi'r tâl trwyddedu llawn ar y gweithgaredd mwyaf cymhleth a 20% o dâl llawn y gweithgaredd hwnnw ar gyfer pob gweithgaredd dilynol. Mae hyn yn adlewyrchu'r amser a dreuliwn ar geisiadau o'r fath ac yn adennill costau CNC.

Amrywiadau gweinyddol

Bydd tâl newydd am Amrywiadau Gweinyddol. Bydd amrywiadau gweinyddol a gychwynnir gan CNC yn parhau i fod yn rhad ac am ddim.

Cyngor cyn gwneud cais

Bydd CNC yn darparu gwasanaeth cyngor cyn gwneud cais sylfaenol i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio a helpu ymgeiswyr i ddeall beth sydd angen iddynt ei wneud. Darperir y cyngor hwn yn rhad ac am ddim. Darperir unrhyw gyngor dilynol trwy ein Gwasanaeth Cyngori yn ôl Disgresiwn a godir ar gyfradd o £125 yr awr + TAW ac fe'i darperir yn ôl disgresiwn CNC. Rydym yn cynnig cyngor sylfaenol ar y canlynol:

- cadarnhad o'r math o drwydded sydd ei angen
- y ffurflenni cais cywir i'w defnyddio
- pa ganllawiau y mae'n rhaid i chi ei ddilyn
- canllawiau i'ch helpu i gyfrifo'ch tâl ymgeisio.

Ceisiadau heb ddigon o fanylion

Mewn achosion lle nad yw cais yn cynnwys digon o fanylion i symud ymlaen ac yn methu â bodloni'r prawf Gwneud yn Briodol, rydym yn bwriadu codi tâl ar yr ymgeisydd am y gwaith a wnaed hyd at y pwynt hwnnw. Byddwn yn dychwelyd y tâl a dalwyd, gan dynnu didyniad am yr amser a dreuliwyd yn gwneud y gwiriadau hyn. Mae hyn yn adlewyrchu cyfran yr amser y mae'r gwiriadau hyn yn e chymryd fel rhan o'r amser trwyddedu cyffredinol.

Bydd y rhain yn 36% o'r tâl am Drwyddedau Rheolau Safonol a 24% o'r tâl am drwyddedau pwrpasol.

Mae'r amser y disgwyliwn ei dreulio yn penderfynu ar gais yn seiliedig ar ddata sy'n dangos yr amser cyfartalog y mae hyn yn ei gymryd. Pan fydd yr amser penderfynu yn mynd y tu hwnt i 150% o'r amser safonol a gwmpesir gan y tâl ymgeisio, codir tâl am amser a deunyddiau. Bydd y tâl hwn yn cael ei anfonebu mewn ôl-daliadau. Disgwyliwn i'r sefyllfa hon fod yn eithriadol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad – gweler Atodiad 9